

# Gyrfaoedd mewn deintyddiaeth



Mae deintyddion yn ymarfer cangen o feddygaeth sy'n canolbwyntio ar iechyd y geg sy'n cynnwys astudio, diagnosis, atal a thriniaeth lawfeddygol ac anlwfeddygol o glefydau.

## Beth mae deintyddion yn ei wneud?

Mae deintyddion yn trin oedolion a phlant. O ddarparu archwiliadau cleifion i driniaethau - gall diwrnod ym mywyd deintydd amrywio'n fawr. Un diwrnod, efallai y bydd gan ddeintydd amserlen brysur o archwiliadau. Y diwrnod wedyn, efallai mai'r driniaeth yw'r cyfan, gan ddechrau gyda rhai llenwadau deintyddol ac yna i gamlas y gwreiddyn a hyd yn oed tynnu ychydig o ddannedd pwr.

## Ble mae deintyddion yn gweithio?

Mae deintyddion yn gweithio ar draws ystod o leoliadau:

- practis deintyddol cyffredinol
- practis deintyddol arbenigol
- clinigau cymunedol
- ysbytai
- y lluoedd arfog
- carchardai.

Gall deintyddion hefyd wneud hyfforddiant pellach mewn un o 13 maes fel orthodonteg i ddod yn arbenigwr neu ymgynghorydd.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn ddeintydd da?

- bydd angen i chi feddu ar sgiliau cyfathrebu a phobl da, bod yn gyfeillgar, esbonio pethau mewn ffordd y gall pobl ei deall a helpu cleifion i deimlo'n gyfforddus
- fel rôl ymarferol bydd angen deheurwydd llaw da arnoch i'ch galluogi i ddefnyddio'r offer angenrheidiol yn fanwl gywir
- mae angen golwg da a sylw i fanylion
- bydd angen i chi fod yn drefnus a gallu blaenoriaethu tasgau
- mae creadigrwydd yn sgil gwych mewn deintyddiaeth, gan helpu wrth ddatrys problemau a gwella gofal cleifion
- gall rôl deintydd fod yn straen weithiau felly bydd angen i chi allu peidio â chynhyrfu dan bwysau.

## Sut mae dod yn ddeintydd?

**Cam un:** bydd angen i chi astudio gradd ddeintyddol sydd fel arfer yn cymryd pum mlynedd i'w chwblhau. Yng Nghymru mae gennym y baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) ar gael ym Mrifysgol Caerdydd. Unwaith y byddant wedi graddio, mae'n ofynnol i ddeintyddion gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC).

**Cam dau:** unwaith y byddwch wedi graddio bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen sylfaen hyfforddiant deintyddol (DFT) am flwyddyn. Yn ystod y DFT byddwch yn gweithio mewn practis deintyddol cymeradwy, yn trin eich cleifion eich hun a byddwch yn cael cyflog llawn amser.

Eisiau darganfod mwy?

Tregyrfa: <https://careersville.heiw.wales/cy>

Gyrfaoedd GIG Cymru: <http://www.gyrfaoeddgigcymru.com/>